



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Cyllideb Atodol

2019-2020

Nodyn Esboniadol

Chwefror 2020

llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2020, Llywodraeth Cymru 39654, ISBN digidol 978-1-83933-784-0

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2 Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20	3
3. Blaenoriaethau'r Llywodraeth a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Dyraniadau Allweddol o'r Cronfeydd wrth Gefn	12
4. Trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion	24
5. Trosglwyddiadau o fewn Portffolios y Gweinidogion	26
6. Newidiadau i'r Cronfeydd Wrth Gefn	30
7. Addasiadau i Gyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol	49
Atodiad 1 – Cysoni rhwng Cyllidebau'r Portffolios yn Nhablau'r Camau Gweithredu a'r rhai yng Nghynnig y Gyllideb	51
Atodiad 2 – Geirfa	53

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y ddogfen hon cysylltwch â:
wag-en@mailuk.custhelp.com

1. Cyflwyniad

- 1.1** Heddiw, cyflwynodd Llywodraeth Cymru yr ail gyllideb atodol ar gyfer 2019-20, yn unol â Rheol Sefydlog 20. Mae'r gyllideb atodol hon yn cynnig newidiadau i'r gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2019-20 fel y'i cymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') ar 9 Gorffennaf 2019.
- 1.2** Mae'r gyllideb atodol hon yn cysoni nifer o ddyraniadau i'r cronfeydd wrth gefn ac allan ohonynt, ynghyd â throsglwyddiadau o fewn y portffolios a rhyngddynt. Mae'n cynnwys addasiadau i gyllideb Cymru i adlewyrchu rhagolygon diwygiedig o reffeniw treth datganoledig; cynlluniau i fenthyg; trosglwyddiadau a symiau canlyniadol a dderbyniwyd yng Nghyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU, 2019; a newidiadau i ragolygon Gwariant a Reolir yn Flynyddol, yn unol â'r manylion diweddaraf a roddwyd i Drysorlys Ei Mawrhydi.
- 1.3** Ceir crynodeb o'r newidiadau a gynigir yn y gyllideb hon yn y penodau canlynol.
- 1.4** Mae'r ddogfen hon yn ategu'r 'Tablau Llinell Wariant y Gyllideb (BEL)' sydd ar wefan Llywodraeth Cymru.

2 Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20

- 2.1** Mae nifer o newidiadau sy'n adlewyrchu'r diwygiadau ers i'r Cynulliad gytuno ar gyllideb atodol gyntaf 2019-20 ar 9 Gorffennaf 2019. Mae'r newidiadau'n cynnwys addasiadau i linellau sylfaen adnoddau a chyfalaf, trosglwyddiadau rhwng portffolios y Gweinidogion a dyraniadau o'r Cronfeydd Wrth Gefn.
- 2.2** Mae'r gyllideb atodol yn adeiladu ar y dyraniadau a amlinellwyd yng nghyllideb ddrafft a chyllideb derfynol 2019-20. Bwriad hyn yw bwrw ymlaen â'r ymrwymïadau yn y Strategaeth Genedlaethol: Ffyniant i Bawb sy'n cynnwys yr amcanion o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
- 2.3** Ddiwedd mis Ionawr, cadarnhaodd Llywodraeth y DU addasiadau cadarnhaol a negyddol i'n cyllideb ar gyfer 2019-20, sy'n cynnwys gostyngiad o £(106,023)k mewn Cyfalaf Trafodion Ariannol. Nid ydym yn derbyn y sail resymegol ar gyfer y newidiadau hyn a byddwn yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU am ragor o eglurder ynghylch y newidiadau ar lefel y DU sy'n arwain at ostyngiadau canlyniadol. Fodd bynnag, rydym wedi cytuno y byddwn yn ysgwyddo'r gostyngiadau o ran y Trafodion Ariannol eleni, sy'n rheolaeth ariannol ddarbodus o dan yr amgylchiadau.

Mae Tablau 2.1 i 2.3 yn amlinellu effaith net yr holl newidiadau ac mae tabl 2.4 yn crynhoi cyfanswm y dyraniadau yn ôl Prif Grŵp Gwariant (MEG) yn y gyllideb atodol hon.

Tabl 2.1 – Ffynonellau Cyllid Llywodraeth Cymru

ELFENNAU CYLLIDO LLYWODRAETH CYMRU	Cyllideb Atodol 2019-20 Mehefin 2019	Newidiadau 2019-20	Cyllideb Atodol 2019-20 Cynlluniau Newydd Chwefror 2020
	£000oedd	£000oedd	£000oedd
CYLLIDO ADNODDAU			
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):			
Cyllidol	12,000,169	17,175	12,017,344
Anghyllidol	690,064	285,065	975,129
Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru	125,000	0	125,000
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):			
Cyllidol	25,094	6,073	31,167
Anghyllidol	69,603	258,699	328,302
Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:			
Ardrethi Annomestig	1,061,000	0	1,061,000
Cyfradd Treth Incwm Cymru	2,059,000	0	2,059,000
Treth Trafodiadau Tir	256,000	3,819	259,819
Treth Gwarediadau Tirlenwi	43,000	-5,000	38,000
Prif ad-daliad o'r benthyciad	-1,228	0	-1,228
CYFANSWM CYLLIDO ADNODDAU	16,327,702	565,831	16,893,533
CYLLIDO CYFALAF			
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):			
Cyffredinol	1,844,956	88,757	1,933,713
Trafodiadau Ariannol	300,219	-16,023	284,196
Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru	0	8,433	8,433
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):			
Cyfalaf	774,302	82,626	856,928
Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:			
Benthycia	125,000	-125,000	0
CYFANSWM CYLLIDO CYFALAF	3,044,477	38,793	3,083,270
CYFANSWM CYLLIDO CYMRU	19,372,179	604,624	19,976,803

Tabl 2.2 – Dyrannu Cyllideb Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)	£000oedd			
	Cyllideb Atodol 2019-20 Mehefin 2019	Newidiadau 2019-20	Cyllideb Atodol 2019-20 Cynlluniau Newydd Chwefror 2020	
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	8,495,236	320,938	8,816,174	
Tai a Llywodraeth Leol	5,607,571	106,726	5,714,297	
Yr Economi a Thrafnidiaeth	1,353,374	97,893	1,451,267	
Addysg	2,379,562	512,695	2,892,257	
Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol	179,767	7,730	187,497	
Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig	300,840	-2,936	297,904	
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	358,913	28,533	387,446	
Cyfanswm y Dyraniad i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru	18,675,263	1,071,579	19,746,842	
Adnoddau heb eu Dyrannu	Adnoddau Cyllidol	178,355	-80,164	98,191
	Adnoddau Anghyllidol	155,838	-143,728	12,110
Cyfalaf heb ei glustnodi	Cyffredinol	100,423	-96,357	4,066
	Trafodiadau Ariannol	190,743	-146,371	44,372
Comisiwn y Cynulliad *	57,988	-350	57,638	
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	4,954	0	4,954	
Swyddfa Archwilio Cymru **	7,878	0	7,878	
Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru	737	15	752	
CYFANSWM CYLLIDEB CYMRU	19,372,179	604,624	19,976,803	

Nodiadau:

* Bydd cyllideb atodol ar gyfer 2019-20 yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor Cyllid ar 6 Chwefror 2020. Mae'n adrodd bod gostyngiad o £500k yn ei ofynion adnoddau cyllidol a chynnydd o £150k yn ei ofynion AME adnoddau.

Tabl 2.3 – Newidiadau i Ddyraniadau MEG Adnoddau Llywodraeth Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)	£000oedd					
	CYLLIDOL			ANGHYLLIDOL		
	Cyllideb Atodol 2019-20 Mehefin 2019	Newidiadau 2019-20	Cyllideb Atodol 2019-20 Cynlluniau Newydd Chwefror 2020	Cyllideb Atodol 2019-20 Mehefin 2019	Newidiadau 2019-20	Cyllideb Atodol 2019-20 Cynlluniau Newydd Chwefror 2020
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	7,811,040	33,863	7,844,903	190,000	15,500	205,500
Tai a Llywodraeth Leol	3,844,001	1,050	3,845,051	200	0	200
Yr Economi a Thrafnidiaeth	519,770	7,255	527,025	190,000	63,232	253,232
Addysg	1,403,699	21,386	1,425,085	107,154	352,146	459,300
Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol	154,894	1,758	156,652	6,677	1,025	7,702
Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig	189,704	-3,049	186,655	21,675	-4,000	17,675
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	313,698	34,380	348,078	16,000	890	16,890
Cyfanswm y Dyraniad i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru	14,236,806	96,643	14,333,449	531,706	428,793	960,499

Tabl 2.4 – Newidiadau i Ddyraniadau MEG Cyfalaf Llywodraeth Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)	£000oedd					
	CYFALAF CYFFREDINOL			TRAFODIADAU ARIANNOL		
	Cyllideb Atodol 2019-20 Mehefin 2019	Newidiadau 2019-20	Cyllideb Atodol 2019-20 Cynlluniau Newydd Chwefror 2020	Cyllideb Atodol 2019-20 Mehefin 2019	Newidiadau 2019-20	Cyllideb Atodol 2019-20 Cynlluniau Newydd Chwefror 2020
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	369,096	57,856	426,952	4,000	-4,000	0
Tai a Llywodraeth Leol	604,639	40,310	644,949	72,637	57,760	130,397
Yr Economi a Thrafnidiaeth	547,817	-45,831	501,986	33,350	60,237	93,587
Addysg	218,442	19,600	238,042	-191	10,640	10,449
Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol	15,503	5,017	20,520	-320	-70	-390
Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig	87,061	2,832	89,893	0	1,281	1,281
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	26,238	-11,237	15,001	0	4,500	4,500
Cyfanswm y Dyraniad i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru	1,868,796	68,547	1,937,343	109,476	130,348	239,824

- 2.4** Ceir trosolwg isod o'r newidiadau i ffynonellau'r cyllid a cheir manylion y trosglwyddiadau rhwng portfolios Gweinidogol a dyraniadau o gronfeydd wrth gefn yn adrannau 4 a 6.

Addasiadau i Ffynonellau Cyllid

Adnoddau Cyllidol

- 2.5** Cafwyd cynnydd net o £17,175k i linell sylfaen yr Adnoddau Cyllidol ers y gyllideb atodol gyntaf, ac mae'n cynnwys y canlynol:

- Cynnydd net o £46,891k o ganlyniad i symiau canlyniadol a dyraniadau eraill a gafwyd gan Lywodraeth y DU, sy'n cynnwys:
 - Cynnydd o £39,776k mewn perthynas ag ymadawiad y DU â'r UE;
 - Cynnydd of £3,807k ar gyfer rheoli cronfeydd strwythurol yr UE;
 - Cynnydd o £2,028k mewn perthynas â Chronfa Cymunedau'r Arfordir;
- Cynnydd o £27,880k gan Drysorlys EM mewn perthynas â'r cynnydd i gostau hawliadau anaf personol o ganlyniad i newidiadau i'r gyfradd ddisgownt;
- Gostyngiad net o £(55,589)k o ganlyniad i drosglwyddiadau gydag adrannau eraill o'r llywodraeth, gan gynnwys:
 - Trosglwyddiad o £(71,800)k i'r Adran Drafnidiaeth mewn perthynas â'r addasiad ar gyfer y tâl defnyddio'r cledrau o dan y fasnachfaint rheilffyrdd newydd;
 - Cynnydd o £10,369k mewn perthynas â throsglwyddiad y Gordal Iechyd Mewnffudo oddi wrth y Swyddfa Gartref;
 - Cynnydd o £3,300k mewn perthynas â throsglwyddiad oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymwneud â 'Dysgu Troseddwy'r yn CEM Berwyn;
- Gostyngiad net o £11,275k o ganlyniad i 3 newid cyllidebol, sef:

- Gostyngiad o £(49,256)k o ganlyniad i newid adnoddau i gyfalaf cyffredinol mewn perthynas ag aiddosbarthu ymchwil a datblygu;
- Cynnydd o £71,800k o ganlyniad i newid cyfalaf cyffredinol i adnoddau er mwyn ymdrin â'r trosglwyddiad i'r Adran Drafnidiaeth mewn perthynas â'r addasiad ar gyfer y tâl defnyddio'r cledrau o dan y fasnachfaint rheilffyrdd newydd;
- Gostyngiad o £(33,819)k o ganlyniad i newid adnoddau i gyfalaf cyffredinol mewn perthynas â'r atebolrwydd Treth Trafodiadau Tir ar brynu Llinell Graidd y Cymoedd.
- Cynnydd net o £9,268k o ganlyniad i ddiwygiadau i'r Addasiad i'r Grant Bloc.

Adnoddau Anghyllidol

2.6 Mae llinell sylfaen yr adnoddau anghyllidol wedi cynyddu £285,065k ers y gyllideb atodol gyntaf yn sgil dyraniad ychwanegol gan Drysorlys EM i ddiwallu cynnydd yn y costau mewn perthynas â benthyciadau myfyrwyr.

Cyllido Datganoledig Cymru

2.7 Mae cyfanswm o £1,181k o ostyngiad net yn y rhagolygon ar gyfer referniw trethi datganoledig. Fel y'i cyhoeddwyd, ac y craffwyd arno'n annibynnol ochr yn ochr â chyllideb ddrafft 2020-21, mae'r referniw a ragwelir o'r Dreth Trafodiadau Tir wedi gostwng £30,000k ac mae'r referniw a ragwelir o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi gostwng £5,000k. Mae £33,819k ychwanegol wedi'i gynnwys i adlewyrchu'r atebolrwydd Treth Trafodiadau Tir mewn perthynas â phrynu Llinell Graidd y Cymoedd.

Cyfalaf Cyffredinol

2.8 Cafwyd cynnydd net o o £88,757k i linell sylfaen Cyfalaf Cyffredinol ers y gyllideb atodol gyntaf, ac mae'n cynnwys y canlynol:

- Cynnydd o £72,605k o ganlyniad i symiau canlyniadol a dyraniadau eraill gan Lywodraeth y DU;

- Gostyngiad net o £11,275k o ganlyniad i 3 newid cyllidebol rhwng Adnoddau Cyllidol a Chyfalaf Cyffredinol fel y gwelir ym mharagraff 2.4;
- Cynnydd net o £4,877k o ganlyniad i drosglwyddiadau gydag adrannau eraill o'r llywodraeth, gan gynnwys dau drosglwyddiad oddi wrth yr Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS), sef £2,832k mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni a £2,045k mewn perthynas â'r Gronfa Fuddsoddi Cynhyrchiant Cenedlaethol.

Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

2.9 Mae'r llinell sylfaen cyfalaf trafodion ariannol wedi gostwng £(16,023)k net ers y gyllideb atodol gyntaf. Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o £(106,023)k fel y'i hysbyswyd gan Lywodraeth y DU ddiwedd mis Ionawr, fel rhan o amcangyfrifon atodol y DU.

Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru

2.10 Bydd £8,433k yn cael ei dynnu o Gronfa Wrth Gefn Cymru er mwyn ariannu gwariant cyfalaf cyffredinol.

Benthyg at ddibenion cyfalaf

2.11 Tynnu £125,000k o fenthyca cyfalaf, gan adlewyrchu mwy o ddefnydd o gyfalaf confensiynol i ariannu cynlluniau gwariant cyfalaf.

Cyllido AME

2.12 Ceir manylion yr addasiadau i'r cyllido a'r gwariant AME ym Mhennod 7.

Tabl 2.5 – Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru

CYFANSWM DYRANIADAU MEG 2019-20 yn ôl y GYLLIDEB ATODOL										
£000oedd										
PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)	Adnoddau			Cyfalaf			AME			CYFANSWM DYRANIAD MEG
	Cyllidol	Anghyllidol	Cyfanswm Adnoddau	Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	7,844,903	205,500	8,050,403	426,952	0	426,952	338,819	0	338,819	8,816,174
Tai a Llywodraeth Leol	3,845,051	200	3,845,251	644,949	130,397	775,346	1,093,700	0	1,093,700	5,714,297
Yr Economi a Thrafnidiaeth	527,025	253,232	780,257	501,986	93,587	595,573	75,437	0	75,437	1,451,267
Addysg	1,425,085	459,300	1,884,385	238,042	10,449	248,491	-97,547	856,928	759,381	2,892,257
Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol	156,652	7,702	164,354	20,520	-390	20,130	3,013	0	3,013	187,497
Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig	186,655	17,675	204,330	89,893	1,281	91,174	2,400	0	2,400	297,904
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	348,078	16,890	364,968	15,001	4,500	19,501	2,977	0	2,977	387,446
CYFANSWM Y DYRANIADAU I BRIF GRWPIAU GWARIANT LLYWODRAETH CYMRU	14,333,449	960,499	15,293,948	1,937,343	239,824	2,177,167	1,418,799	856,928	2,275,727	19,746,842

3. Blaenoriaethau'r Llywodraeth a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Dyraniadau Allweddol o'r Cronfeydd wrth Gefn¹

- 3.1** Mae'r gyllideb atodol hon yn cynnig newidiadau i'r gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2019-20 a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 9 Gorffennaf 2019. Dyma'r cyfle olaf i addasu cyllidebau cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae cyllidebau atodol yn adeiladu ar y cynlluniau gwariant a'r cynlluniau cyflawni a nodwyd ac y craffwyd arnynt o fewn Cyllidebau drafft a therfynol 2019-20. Mae'r ail gyllideb atodol hon ar gyfer 2019-20 yn adlewyrchu newidiadau o £1.07bn i'r cynlluniau gwariant o £18.7bn y cytunwyd arnynt yn y gyllideb derfynol a'r gyllideb atodol gyntaf. Mae nifer o'r penderfyniadau dyrannu a nodir yn y gyllideb atodol hon yn parhau i gyflawni'r amcanion a'r blaenoriaethau strategol a nodir yn y cyllidebau hynny.
- 3.2** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn parhau i ddarparu'r sylfaen sy'n arwain ein proses gyllidebol. Mae'r gyllideb yn parhau i fod yn sail i'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu, Symud Cymru Ymlaen, a'n Strategaeth Genedlaethol Ffyniant i Bawb. Mae ein cynlluniau gwariant wedi'u llywio gan wyth maes trawsbynciol, sef y blynyddoedd cynnar, gofal cymdeithasol, tai, cyflogadwyedd a sgiliau, gwell iechyd meddwl, datgarboneiddio, tlodi a bioamrywiaeth. Y rhain yw'r wyth maes lle gallwn gael yr effaith fwyaf gyda'n gilydd dros y tymor hwy ac sy'n cyfrannu orau at atal problemau rhag digwydd neu waethygu yn y dyfodol tuag at gyflawni ein hamcanion llesiant.

¹ Mae'r ffigurau yn y bennod hon wedi'u talgrynnu i un lle degol. Mae'r dyraniadau hyn wedi'u hadlewyrchu yn Nhablau'r Camau ar wefan Llywodraeth Cymru

Cynllun Gwella'r Gyllideb

3.3 Cyhoeddwyd Cynllun Gwella'r Gyllideb fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft 2020-21. Mae hyn yn adeiladu ar y teclyn ar gyfer gwirio hynt y gyllideb a ddatblygwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ac sy'n nodi sut yr ydym yn bwriadu newid a gwella'r ffordd yr ydym yn dyrannu cyllid ar gyfer Cymru fwy cyfartal, llewyrchus a gwyrdd. Yn unol â'r cynllun, rydym wedi datblygu'r nodyn esboniadol hwn i roi cyfrif mwy cynhwysfawr o'r dyraniadau sylweddol a wnaed o'r cronfeydd wrth gefn. Mae llawer o'r dyraniadau hyn yn adlewyrchu cyhoeddiadau a wnaed yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.

Y Cynnig Gofal Plant

3.4 Yn *Ffyniant i Bawb* nodwyd rôl y sector gofal plant yn natblygiad cymdeithasol Cymru. Mae'r Cynnig Gofal Plant yn un o'r prif ysgogwyr newid ar gyfer y sector gofal plant. Gwnaed dyraniad o £12m i'r gyllideb Cynnig Gofal Plant presennol a fydd yn galluogi'r teuluoedd hynny i barhau i dderbyn buddion y Cynnig a galluogi mwy o deuluoedd ar draws Cymru i gael y ddarpariaeth. Mae tystiolaeth wedi dangos bod darpariaeth blynyddoedd cynnar, fforddiadwy, hygyrch ac o ansawdd, sydd ar gael ar yr adegau pan fydd angen hynny ar rieni, yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ehangu'r economi, gan helpu rhieni, yn enwedig mamau, i ddychwelyd i waith. Mae gofal plant ac addysg gynnar o ansawdd uchel hefyd yn arwain at fanteision tymor hir i'n plant ac mae'n dylanwadu'n gryf ar eu cyfleoedd mewn bywyd yn y dyfodol. Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir mai gwaith â chyflog teg yw'r ffordd orau allan o dlodi, a'r amddiffyniad gorau yn erbyn tlodi. Mae'r *Gwerthusiad o weithrediad cynnar y Cynnig Gofal Plant: blwyddyn dau*² a gyhoeddwyd cyn y Nadolig yn dangos bod gan 84% o'r rhieni sy'n defnyddio'r Cynnig fwy o incwm i'w wario, bod 57% yn teimlo bod penderfyniadau yn ymwneud â gwaith yn fwy hyblyg, bod 45% yn fwy o gyfleoedd am fwy o hyfforddiant, dysg a datblygiad a bod 65% o ddarparwyr gofal plant o'r

² <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/evaluation-of-the-early-implementation-of-the-childcare-offer-for-wales-year-two.pdf>

farn bod y Cynnig wedi gwella cynaliadwyedd eu lleoliad. Trwy gefnogi teuluoedd sy'n gweithio, mae'r Cynnig yn ei gwneud yn haws i rieni ddod o hyd i swyddi a'u cadw.

Datblygwyd y Cynnig yn unol â'r pum ffordd o weithio a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd meithrin cysylltiadau yn eang gyda rhieni a darparwyr yn sicrhau bod y Cynnig yn cael ei ddatblygu mewn modd integredig a chydweithredol, gan ein galluogi i dynnu sylw at risgiau, materion a rhwystrau, a'u datrys yn adeiladol; roedd hyn yn ei dro yn sicrhau ein bod yn datblygu Cynnig sy'n gynaliadwy yn yr hirdymor.

Dyfarniad Cyflog Athrawon

3.5 Mae *Addysg yng Nghymru: Cynllun Gweithredu Cenhadaeth ein Cenedl 2017-21* wedi'i gynllunio i gefnogi darpariaeth "Uchelgeisiol ac yn Dysgu", un o themâu allweddol *Ffyniant i Bawb*, a cham gweithredu allweddol yn *Cenhadaeth ein Cenedl* yw datblygu fframwaith cyflog ac amodau newydd i athrawon "a wnaed yng Nghymru", gan gynnal dull cenedlaethol o ran dysg a safonau proffesiynol. Mae gweithredu hwn yn cefnogi ac yn ceisio bod o fudd i bobl ifanc yng Nghymru trwy sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r materion hynny sy'n berthnasol i'r proffesiwn dysgu yng Nghymru, ceisio sicrhau bod athrawon o'r safon uchaf yn y proffesiwn a'u cefnogi i ddarparu dysg ac addysg o'r radd flaenaf yng Nghymru. Yn y Gyllideb Atodol rydym wedi dyrannu £12.9m i gefnogi cost dyfarniad cyflog athrawon 2019-20, gan gynnwys chweched dosbarth, i gefnogi codiad cyflog o 2.75% ar gyfer athrawon a 5% i athrawon newydd gymhwyso. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddyrannu fel grant penodol gan y Prif Grŵp Gwariant Addysg. Mae ein dull cydweithredol o sefydlu system gyflog ac amodau 'penodol i Gymru' gyda rhanddeiliaid allweddol yn dangos ein hymrwymiad i egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ail Becyn Buddsoddi Cyfalaf

3.6 Ar 4 Tachwedd 2019, cyhoeddwyd hwb ariannol pellach ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf allweddol i roi hyder pellach yng Nghymru a sicrwydd i fusnesau a'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn ogystal â chymryd cam arall tuag at wneud y gorau o ysgogiadau cyfalaf Llywodraeth Cymru i ddarparu Cymru wyrddach. Yn yr ail gyllideb atodol, gwneir dyraniadau o £108m o gyfalaf ychwanegol gan gynnwys £33m i gefnogi busnesau o ganlyniad i Brexit a chyllid ychwanegol ar gyfer ystod o brosiectau gan gynnwys cynlluniau tai, cymorth ar gyfer teithio llesol, cynnal a chadw ysgolion a cholegau, cymorth ar gyfer yr amgylchedd gan gynnwys y Parciau Cenedlaethol a chronfa fenthyciadau asedau cymunedol i helpu i sicrhau bod cyfleusterau cymunedol yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Mwy o Fuddsoddiad Cyfalaf ar gyfer Ysgolion a Cholegau

3.7 Yn ogystal â'r dyraniad o'r pecyn buddsoddi cyfalaf y cyfeiriwyd ato uchod, gwnaed dyraniad pellach yn y gyllideb hon i ategu'r Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif. Mae £10.6m wedi'i ddyrannu i ddatblygu Academi Wyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Celf a Mathemateg (STEAM) o'r radd flaenaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Er bod y rhaglen yn cysylltu'n uniongyrchol ag un o'r themâu allweddol sef *Uchelgeisiol ac yn Dysgu yn Ffyniant i Bawb* lle mae'r ymrwymiad i £2biliwn o fuddsoddiad mewn adeiladau ysgolion a cholegau; rhagwelir y bydd buddion ehangach y rhaglen hefyd yn cyfrannu at *Iach ac Egniol* trwy ddarparu cyfleusterau chwaraeon o safon a fydd o fudd i ddisgyblion a'r gymuned ehangach; *Ffyniannus a Diogel* trwy greu swyddi a hyfforddiant a darparu asedau effeithlon a chynaliadwy a *Unedig a Chysylltiedig* trwy gymorth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a Dysgu yn y Gymru Ddigidol sy'n cael ei ariannu drwy'r rhaglen.

Mae'r rhaglen wedi'i chreu ar y cyd â phartneriaid mewn awdurdodau lleol a sefydliadau Addysg Bellach ac mae pob prosiect wedi'i gefnogi gan achosion busnes cadarn. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses achosion busnes sy'n archwilio aliniad strategol, gwerth am arian, ymarferoldeb masnachol, fforddiadwyedd a'r gallu i gyflawni.

Bargen Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

3.8 Mae £18m o arian cyfalaf cyffredinol wedi'i ryddhau o gronfeydd wrth gefn ar ôl ei ddyrannu yn flaenorol i Fargen Dinas-Ranbarth Bae Abertawe fel y cyfraniad gwreiddiol tuag at ddarparu rhaglen fuddsoddi 15 mlynedd i gynhyrchu twf economaidd cynaliadwy yn y rhanbarth. Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn nodi datblygu dulliau rhanbarthol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb strwythurol fel un o'i phedair egwyddor allweddol. O'u natur, mae bargeinion dinesig a thwf yn cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol oherwydd, yn ganolog iddynt, mae gweledigaeth hirdymor a ddatblygwyd gan y rhanbarth, ar gyfer y rhanbarth. Wrth gyflawni'r fargen, mae angen i bartneriaid rhanbarthol - dan arweiniad awdurdodau lleol - gydweithio, gan gynnwys rhwydwaith o randdeiliaid rhanbarthol i fynd i'r afael â heriau'r gorffennol a'r presennol, mewn modd sy'n paratoi economi'r rhanbarth ar gyfer y dyfodol. Yn ystod datblygiad y trefniadau llywodraethu ar gyfer y Fargen, cysylltodd y rhanbarth â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau bod y cynigion yn adlewyrchu ffocws hirdymor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

3.9 Rydym wedi ymrwymo i gefnogi cynnig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd am Gronfa Fuddsoddi mewn Tai ac mae dyraniad o £10m o gyfalaf trafodiadau ariannol a £5m o gyfalaf cyffredinol wedi'i ddyrannu at y diben hwn. Bydd yn cefnogi darpariaeth Rhaglen ddeng mlynedd i ddatgloi safleoedd ar gyfer datblygu tai yn y De-ddwyrain. Roedd y

Rhaglen yn cynnig blaenoriaethu safleoedd a fydd yn darparu'r gwerth economaidd mwyaf, gan wella hygyrchedd rhwng gweithwyr a swyddi. Fel rhan o'r Rhaglen bydd y Rhanbarth yn gweithio'n agos gyda phartneriaid awdurdod lleol i nodi eu safleoedd blaenoriaeth a darparu buddion economaidd i'r Rhanbarth.

Buddsoddiad Cyfalaf mewn Tai

3.10 Mae tai yn chwarae rhan bwysig yn ansawdd bywyd a lles economaidd unigolion a theuluoedd, gan gyfrannu at fynd i'r afael â thlodi a dyma un o'n chwe maes blaenoriaeth trawsbynciol yn *Ffyniant i Bawb*. Rydym am i bawb fyw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n eu helpu i fyw bywydau iach, llwyddiannus a ffyniannus. Mae cartrefi o ansawdd da yn sylfaen i gymunedau da ac yn sail i unigolion ac i deuluoedd allu ffynnu ym mhob agwedd ar eu bywyd.

Mae'r gyllideb hon yn parhau i gefnogi ein hymrwymiad i ddarparu 20,000 o dai fforddiadwy gyda dyraniad ychwanegol o £17.8m o gyfalaf trafodiadau ariannol pellach ar gyfer cynllun Cymorth i Brynu ac arian Benthyciad Eiddo, yn ogystal â'r dyraniadau a wnaed fel rhan o'r ail becyn buddsoddi cyfalaf, a dyraniad o £6m o arian cyfalaf cyffredinol i'r rhaglen Grantiau Tai Cymdeithasol sy'n chwarae rhan hanfodol wrth gynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol a thai canolradd.

Mae ein buddsoddiadau mewn tai hefyd yn sicrhau bod tai sydd eisoes ar gael a thai newydd yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon, yn helpu i leihau tlodi tanwydd ac yn gwella canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol. Mae Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd wedi datgan bod tai a gwres domestig yn feysydd pwysig lle mae'n rhaid i lywodraethau gyflawni cynlluniau cadarn er mwyn cyrraedd targedau datgarboneiddio.

Y Gronfa Fuddsoddi Cymdeithasol Buddsoddi i Arbed

3.11 Mae blaenoriaeth *Ffyniant i Bawb - Unedig a Chysylltiedig: Creu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnherth* yn cydnabod bod gan y cymunedau cryfaf bobl sydd eisiau camu ymlaen i gyflawni pethau. Gwnaed dyraniad o £3.5m i brosiect newydd ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru yng Nghyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i ddarparu benthyciadau ariannol i sefydliadau trydydd sector corfforedig.

Diben y Gronfa Fuddsoddi Gymdeithasol yw cefnogi mwy o brosiectau arloesol a gyflwynwyd gan y trydydd sector yng Nghymru. Er nad ydym yn gwybod eto pa fath o gynigion a ddaw, disgwylir iddynt gyd-fynd yn amlwg â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, oherwydd y profiad o weithredu cronfeydd tebyg. Bydd y meini prawf ar gyfer ceisiadau yn cyd-fynd â phum ffordd o weithio'r Ddeddf.

Gwella a Buddsoddi yn ein Trafnidiaeth

3.12 Derbynnir yn eang bod rhai grwpiau â nodweddion gwarchoddedig yn fwy tebygol o ddibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus a theithiau llesol i gyrraedd at swyddi a gwasanaethau yn sgil oedran, tlodi, iechyd neu oherwydd eu bod yn anabl. Dylai gwelliannau o ran mynediad, argaeledd, diogelwch a chostau trafndiaeth gyhoeddus chwarae rhan allweddol yn y tymor hir i leihau anfantais ymysg y grwpiau gwarchoddedig. Roedd yr ail becyn buddsoddi cyfalaf yn cynnwys buddsoddiad o £14.5m i gefnogi 66 o gynlluniau teithio llesol, a gwella a chreu llwybrau a chyfleusterau teithio llesol yng Nghymru, fel rhan o'r ymdrechion i annog mwy o bobl i gerdded a beicio.

Ein nod yw cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus drwy annog teithwyr i newid o ddefnyddio ceir preifat, gan leihau tagfeydd, allyriadau carbon a gwella ansawdd yr aer a pherfformiad economaidd.

Wrth asesu gwariant, rydym hefyd wedi ystyried manteision ehangach buddsoddiadau sy'n mynd ymhellach na dim ond datgarboneiddio, sydd yn aml yn gallu bod yn fantais eilaidd yn hytrach nag yn unig ddiben. Er enghraifft, mae effaith ddatgarboneiddio teithio llesol yn dibynnu i raddau mawr ar newid moddol cyffredinol o gludiant ar y ffordd. Fodd bynnag, mae hyrwyddo teithio llesol, a darparu seilwaith teithio llesol hefyd yn caniatáu ar gyfer cyflwyno manteision iechyd ehangach.

Maes Awyr Caerdydd

3.13 Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth gyfalaf trafodiadau ariannol ychwanegol o £21.2m i gefnogi benthyciad estynedig ar gyfer Maes Awyr Caerdydd (y mae £16.8m ohono ar gyfer 2019-20). Bydd yr arian hwn yn helpu i gefnogi ei gynlluniau uchelgeisiol i'r dyfodol trwy ymgymryd â buddsoddiad pellach yng nghyfleusterau'r maes awyr. Cadarnhaodd y Gweinidog Trafnidiaeth hefyd y byddai Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cael ei diweddarau ac y bydd y maes awyr yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu rhwydwaith trafndiaeth ar gyfer Cymru sydd o safon uchel, yn aml-ddull, carbon isel ac integredig.

Gweithredu Argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth y De-ddwyrain

3.14 Mae dyraniadau refeniw o £8.2m ac arian cyfalaf cyffredinol o £1.9m ar gael yn y gyllideb hon i gefnogi argymhellion prosiect Coridor yr M4 ar gyfer mesurau cyflym, sy'n canolbwyntio ar y draffordd ac sydd wedi'u cynllunio i gael effaith ar lif y traffig yn syth. Bydd canlyniad gwaith y Comisiwn yn helpu i gyflawni seilwaith modern a chysylltiedig.

Yn ogystal ag adlewyrchu'r pwysigrwydd yr ydym yn ei roi ar gefnogi Cymru fwy ffyniannus, rydym hefyd yn cyflawni Cymru wyrddach. Mae Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd, ein cynghorydd statudol ar newid yn yr hinsawdd, wedi rhoi gwybod y bydd yn rhaid i allyriadau yng Nghymru gael eu lleihau 95 y cant erbyn 2050 o'u cymharu â lefelau 1990 er mwyn i'r DU gyrraedd lefel sero net ar gyfer allyriadau oherwydd

bod datgarboneiddio trafndiaeth ffyrdd yn hanfodol i gyflawni'r targed o lefel sero net.

Mae'r mesurau a argymhellir gan y Comisiwn hefyd yn darparu buddion ehangach o ganlyniad i well llif traffig sy'n cynnwys cefnogi lleihad yn yr allyriadau CO2 a gwell ansawdd aer.

Cronfa Benthyciadau i Ficrofusnesau Cymru

3.15 Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi ydy'r polisi arweiniol a'r ddogfen strategaeth ar gyfer ein holl weithgareddau ar draws yr economi. Wrth galon y Cynllun ceir dau nod sef lleihau anghydraddoldeb a lledaenu ffyniant. Mae'r rhain yn cael eu hymgorffori yn y contract economaidd a ffordd o ddatblygu'r economi sy'n seiliedig ar lefydd. Mae'n cydnabod amrywiadau rhanbarthol mewn llesiant a chyfoeth ac yn cydnabod bod gan wahanol rannau o Gymru gyfleoedd a heriau gwahanol.

Mae £6m wedi'i neilltuo ar gyfer benthyciadau i ficrofusnesau ac mae'r arian yn cael ei ddarparu drwy Fanc Datblygu Cymru. Mae Banc Datblygu Cymru, a lansiwyd yn 2017, yn gydran graidd o'n polisi economaidd a'n darpariaeth i gefnogi busnesau. Bydd y dyraniad ychwanegol yn cefnogi cylch gwaith Banc Datblygu Cymru i wella gallu busnesau bach a chanolig i gael mynediad i gyllid, er mwyn dechrau, cryfhau a thyfu'r busnes. Drwy hynny mae'n cefnogi creu a diogelu swyddi a fydd yn galluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth a ddaw o gael gwaith neu aros mewn gwaith teilwng.

Mae Banc Datblygu Cymru wedi ymrwmo i'r dull hirdymor, integredig a chydweithredol o fuddsoddi, gan gynnwys pobl o bob demograffeg i sicrhau twf cynaliadwy yng Nghymru.

Cronfa Bontio'r UE

3.16 Fel rhan o'r gyllideb mae dyraniad pellach o £3.5m o arian refeniw, £2.5m o arian cyfalaf cyffredinol a £5m o arian cyfalaf trafodiadau ariannol o Gronfa Bontio'r UE ar gyfer nifer o brosiectau (mae manylion y rhain ym Mhennod 6, tabl 6.1) a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018 fel rhan o gynlluniau Brexit Llywodraeth Cymru ac maent wedi'u cynllunio i helpu sefydliadau'r sector preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector i baratoi ar gyfer Brexit a'r newidiadau sylweddol sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r ffyrdd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu defnyddio i ddatblygu cynigion ac ymgysylltu ac ymgynghori gyda sefydliadau rhanddeiliaid fel rhan o'r broses. Mae'n rhaid i'r cynigion nodi'n glir sut y maent yn cyfrannu at flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ac maent yn cael eu gwerthuso yn seiliedig ar y rhain.

Buddsoddiad Digidol yn Awdurdod Cyllid Cymru

3.17 Gwnaed dyraniad o £0.5m i Awdurdod Refeniw Cymru i gefnogi datblygiad gofynion digidol yr awdurdod treth o ran casglu a rheoli trethi datganoledig. Bydd y buddsoddiad yn cefnogi gwell gwasanaethau sy'n cyfrannu at ddarparu eu hamcanion strategol, gan gynnwys helpu pobl i dalu'r swm cywir o drethi ar yr adeg gywir.

Dyraniadau allweddol eraill o'r cronfeydd wrth gefn

3.18 Wrth eu natur, mae cyllidebau atodol hefyd yn canolbwyntio ar y pwysau a'r cyfleoedd a ddaw i'w amlwg yn ystod y flwyddyn ariannol. Ni fydd pob un wedi codi o ganlyniad i amcanion strategol Llywodraeth Cymru, ond efallai y bydd angen ymyrraeth Llywodraeth Cymru gan arwain at effaith ar y gyllideb. Gweler enghreifftiau o'r rhain isod.

Pwysau ar adnoddau yn ymwneud â Brexit

3.19 Mae Brexit wedi creu pwysau ychwanegol ar adnoddau yn Llywodraeth Cymru ac mae gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn cynnwys gwaith

cynllunio wrth gefn, negodi partneriaethau ar gyfer y dyfodol gan baratoi ar gyfer arfer pwerau newydd a rheoli deddfwriaeth. Gwnaed dyraniad o £19.9m yn y gyllideb hon i gefnogi hyn.

Pwysau a blaenoriaethau ychwanegol ac ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

3.20 Mae £17.3m wedi'i ddyrannu i'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddiwallu blaenoriaethau a phwysau sydd wedi codi yn ystod 2019-20. Mae hyn yn cynnwys ad-dalu cyllid a neilltuwyd gan y Prif Grŵp Gwariant yn 2018-19 i brynu warws i storio cyflenwadau iechyd a gofal cymdeithasol fel rhan o'r paratodau ar gyfer Brexit. Mae'r cyllid hwn wedi'i ddefnyddio i gefnogi nifer o flaenoriaethau sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn yn y Prif Grŵp Gwariant. Mae hefyd yn cynnwys £5m i fynd i'r afael â diffyg cyllid gan y Cynllun Rheoleiddio Prisiau Fferyllol.

Pwysau ar Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y Gaeaf

3.21 Ym mis Rhagfyr 2019 gwelwyd y pwysau uchaf erioed ar y gwasanaeth ambiwlans a'r adrannau argyfwng a'r nifer uchaf erioed o dderbyniadau i'r adran frys ar gyfer unigolion dros 75 oed. Er y croesawyd y lleihad mewn oedi wrth drosglwyddo gofal, yn y gyllideb atodol hon rydym yn gwneud £10m o gyllid ychwanegol ar gael, yn ogystal â'r £30m sydd eisoes wedi'i ddyrannu o'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddyrannu i fynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal, gan alluogi Byrddau Iechyd a'u partneriaid i gydweithio i wella llif cleifion drwy system yr ysbyty ac allan i'r gymuned.

Y Rhaglen i Ddileu TB Buchol

3.22 Mae'n ofyniad statudol i Lywodraeth Cymru dalu iawndal TB Buchol a ariennir o gyllideb seiliedig ar alw sydd felly yn anodd ei rhagweld. Gwnaed dyraniad o £6.4m i fynd i'r afael â'r pwysau o fewn y gyllideb yn 2019/20.

Mae'r buddsoddiad mewn rhaglenni dileu afiechydon mewn anifeiliaid yn rhai ataliol o ran natur. Er enghraifft, canlyniad y Rhaglen i Ddileu TB yn y pendraw yw dileu TB Buchol yn llwyddiannus, a fydd yn arwain at leihad mewn gwariant ar ddileu a gwariant ar iawndal yn ogystal â lleihau'r colledion i'r diwydiant o ganlyniad, gan roi hwb i economi Cymru.

4. Trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion

4.1 Mae'r adran hon yn rhoi manylion am y trosglwyddiadau o £1,000k a throsglwyddwyd rhwng y Prif Grwpiau Gwariant.

Adnoddau Cyllidol

4.2 Trosglwyddwyd adnoddau cyllidol gwerth cyfanswm o £22,909k rhwng y Prif Grwpiau Gwariant, gan gynnwys:

- Trosglwyddiad net o £177k i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu mewn perthynas â Buddsoddi i Arbed, gan gynnwys:
 - Trosglwyddiad net o £(2,632)k i Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
 - £2,010k oddi wrth Tai a Llywodraeth Leol;
 - £1,080k oddi wrth Addysg;
- £3,700k o Tai a Llywodraeth Leol i Addysg ar gyfer nodi ac ymyrryd yn gynnwys er mwyn atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc, drwy addysg;
- £1,050k o Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i Addysg yn sgil ehangu trefniadau bwrsariaeth GIG Cymru ar gyfer myfyrwyr sy'n dewis astudio pynciau cysylltiedig ag Iechyd yng Nghymru.

Cyfalaf Cyffredinol

4.3 Cafodd cyfanswm o £16,457k o drosglwyddiadau cyfalaf cyffredinol eu gwneud rhwng y Prif Grwpiau Gwariant, gan gynnwys:

- £3,862k o Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â Buddsoddi i Arbed;
- £3,200K o Economi a Thrafnidiaeth i'r Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol mewn perthynas â 'Surf Snowdonia';
- £2,670k o Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i Tai a Llywodraeth Leol i ddefnyddio tanwariant i gefnogi'r prosiect tai Cartrefi Gwag;

- £2,500k o Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i'r Economi a Thrafnidiaeth yn ymwneud ag ad-dalu rhan o'r £4,000k a drosglwyddwyd yn 2018-19 mewn perthynas â phrynu offer TG;
- £1,858k o Tai a Llywodraeth Leol i lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â'r Gronfa Gofal Integredig;
- £1,700k o Tai a Llywodraeth Leol i'r Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol mewn perthynas â thwristiaeth a'r prosiect 'Cyrchfan Ddenu'.

5. Trosglwyddiadau o fewn Portffolios y Gweinidogion

5.1 Yn ogystal â'r trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion a nodir yn adran 4, mae nifer o drosglwyddiadau yn digwydd rhwng sawl BEL o fewn yr un portffolios ac mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y Tablau BEL cyhoeddedig. Mae'r rhain yn gyffredinol yn weinyddol eu natur ac nid oes ganddynt unrhyw effaith net ar gyfansymiau'r Prif Grwpiau Gwariant unigol.

MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5.2 Cafwyd nifer o drosglwyddiadau rhwng sawl BEL yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gysoni'n gywir y dyraniadau a wnaed i'r Byrddau Iechyd Lleol ac i ariannu ymrwymadau penodol. Roedd y trosglwyddiadau hynny yn cynnwys y rhai canlynol dros £1,000k:

- £11,286k a drosglwyddwyd o'r BEL Dyraniadau Craidd y GIG i'r BEL Dyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG mewn perthynas ag Indemniadau Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol;
- £1,300k a drosglwyddwyd o'r BEL Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i'r BEL Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn darparu cyllid ychwanegol i helpu'r corff yn ei waith o ysgogi ac arwain gwelliannau i'r gwasanaethau ar draws y sector gofal cymdeithasol.

MEG Tai a Llywodraeth Leol

5.3 Cafwyd nifer o drosglwyddiadau adnoddau a chyfalaf rhwng sawl BEL yn y MEG Tai a Llywodraeth Leol, gan gynnwys:

